Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:
## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Tachwedd 2021

Ar 29 Mehefin 2021 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 14 Hydref 2021.

Yn y cyfarfod ar 28 Medi 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad i 18 Tachwedd 2021.

Ar 4 Tachwedd 2021, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a

Thai, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad, sef 2 Rhagfyr 2021.